Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Ffigurau defnydd domestig nodweddiadol o ynni

**Taflen ffeithiau 96** 18.01.11 www.ofgem.gov.uk

**Mae Ofgem yn defnyddio ffigur defnydd domestig nodweddiadol o ynni wrth gyfrifo mathau penodol o ddata a dadansoddiadau. Er enghraifft, biliau cartrefi cyfartalog. Rydym wedi diwygio'r ffigurau defnydd nodweddiadol o ynni hyn yn ddiweddar. Rhoddwyd y ffigurau newydd ar waith ar 17 Ionawr 2011.**

## Beth yw ffigur defnydd nodweddiadol o ynni?

Cyfanswm yr ynni mae cartref 'nodweddiadol', â lefel ganolig o ddefnydd o ynni, yn ei ddefnyddio mewn blwyddyn.

Rydym hefyd wedi cyfrifo gwerthoedd defnydd blynyddol nodweddiadol isel a nodweddiadol uchel o ynni.[1]

## At ba ddiben y caiff hyn ei ddefnyddio?

Mae Ofgem yn defnyddio'r ffigur hwn i ddadansoddi amrywiaeth eang o bethau. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfrifo cost bil ynni blynyddol cyfartalog
- canfod lefel yr arbedion sydd ar gael i gwsmeriaid sydd eisiau newid.

Ymysg y sefydliadau eraill a allai ddefnyddio ein ffigurau defnydd nodweddiadol o ynni mae:

- y cyfryngau
- cyflenwyr ynni
- diwydiant
- cyrff eraill megis yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu
- rhai gwefannau newid (ond nid pob un).

## Pam bod Ofgem wedi ailgyfrifo'r ffigur?

Adolygwyd y gwerthoedd defnydd nodweddiadol o ynni ddiwethaf yn 2003 gan Energywatch. Penderfynwyd adolygu'r ffigurau er mwyn iddynt adlewyrchu lefelau presennol y defnydd o ynni yn well.

| | Nwy | Trydan |
|---|---|---|
| **Ffigurau newydd defnydd canolig nodweddiadol o ynni** | 16,500 kWh | 3,300 kWh |
| **Hen ffigurau defnydd canolig nodweddiadol o ynni** | 20,500 kWh | 3,300 kWh |

Fel y gwelwch, mae'r ffigur defnydd nodweddiadol o nwy wedi gostwng. Ond mae'r ffigur ar gyfer trydan wedi aros yr un fath.

O ran cartrefi ar dariff amser y defnydd o ynni, megis Economy 7, y ffigur defnydd canolig nodweddiadol o drydan yw 5,000 kWh, o gymharu â'r hen werth o 6,600 kWh.

Gall cwsmeriaid ddewis bod ar dariff amser y defnydd o ynni oherwydd ei fod yn gweddu i batrwm eu defnydd o ynni. Efallai y bydd rhai cartrefi ar dariff amser y defnydd o ynni yn defnyddio mwy o drydan na'r rheini ar dariff safonol oherwydd eu bod yn defnyddio trydan i wresogi eu cartref neu ddarparu dŵr poeth.

[1] Gwerthoedd defnydd isel nodweddiadol o ynni: Nwy - 11,000 kWh, Trydan - 2,100 kWh. Gwerthoedd defnydd uchel nodweddiadol: Nwy - 23,000 kWh, Trydan - 5,100 kWh

## Pam bod y defnydd nodweddiadol o nwy wedi gostwng?

Gallai cartrefi fod yn awyddus i ostwng eu defnydd o ynni, arbed arian ar eu biliau neu leihau allyridau carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Efallai eu bod yn gwneud hyn drwy gynyddu mesurau effeithlonrwydd ynni o amgylch y cartref, a fyddai'n gostwng eu defnydd o nwy.

Er enghraifft, gallai cartrefi fod wedi gwneud gwelliannau ynni-effeithlon megis:

- inswleiddio
- boeler mwy ynni-effeithlon
- ffenestri dwbl.

Mae rhaglenni'r Llywodraeth megis y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) hefyd wedi hyrwyddo mesurau arbed ynni.

## Pam bod y defnydd nodweddiadol o drydan wedi aros yr un fath?

Nid oes ateb pendant pam bod y defnydd nodweddiadol o drydan wedi aros yr un fath. Mae goleuo ac offer ar gyfer y cartref yn fwyfwy ynni-effeithlon, ond efallai bod nifer cynyddol y dyfeisiau sy'n defnyddio llawer o ynni mewn cartref nodweddiadol wedi gwrthbwyso hyn. Er enghraifft, mae mwy o liniaduron, setiau teledu sgîn mawr ac offer trydanol arall.

## Sut y gwnaethom gyfrifo'r ffigurau defnydd o ynni newydd?

**Cafodd hen ffigurau 2003 eu cyfrifo gan ddefnyddio ffigurau defnydd cymedrig o ynni.**

**Er mwyn cyfrifo'r ffigurau defnydd nodweddiadol o ynni newydd, defnyddiwyd gwerthoedd hanesyddol canolrifol. Mae defnyddio gwerthoedd canolrif yn caniatáu i'n ffigur gynrychioli mwy o gwsmeriaid.**

**Cymedr:** Mae'n adio set o ffigurau at ei gilydd ac yna'n rhannu â nifer y ffigurau yn yr amrediad.

**Canolrif:** Mae'n trefnu set o ffigurau yn ôl maint, ac yn cymryd y ffigur canol.

Fel rhan o'n hasesiad adolygwyd data a dadansoddiadau am y defnydd o ynni o sefydliadau eraill. Edrychwyd hefyd ar dueddiadau defnydd o ynni dros amser.

Wrth ystyried y wybodaeth sydd ar gael, a barn rhanddeiliaid, penderfynwyd cymryd pedair blynedd o ddata hanesyddol fel sail i'n cyfrifiadau. Defnyddiwyd data am y defnydd o ynni a ddarparwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gan ddiwydiant.

Ymgynghorwyd yn eang ar y dull hwn. Pan gyfrifwyd y ffigurau, ymgynghorwyd ar p'un a ddylem eu mabwysiadu fel ein ffigurau defnydd o ynni newydd hefyd.

## Pam nad yw Ofgem yn newid ffigurau'r defnydd o ynni yn fwy rheolaidd er mwyn rhoi gwybodaeth fwy cyfoes am y defnydd o ynni?

Rydym yn defnyddio cyfuniad o ffigurau defnydd nodweddiadol hirdymor o ynni a data cyfredol y farchnad yn ein dadansoddiad.

Mae'n hanfodol cael ffigur defnydd nodweddiadol o ynni wedi'i feincnodi er mwyn gallu dangos sut mae tueddiadau'n newid.


Pe byddem yn newid ffigurau'r defnydd nodweddiadol o ynni yn fwy rheolaidd, byddai'n anoddach llunio darlun cyson o werthoedd biliau dros amser. Gallai beri dryswch i ddefnyddwyr a diwydiant hefyd pe byddem yn newid ein ffigurau meincnodi yn rheolaidd.

Yn y dyfodol, os bydd gennym dystiolaeth nad ydynt bellach yn gynrychiolaeth deg o'r defnydd o ynni, byddwn yn ystyried diwygio'r ffigurau hyn eto, fel rydym wedi'i wneud nawr.

**Graff yn dangos gwerthoedd biliau nwy blynyddol ar gyfer tariffau debyd uniongyrchol safonol, wedi'u cyfartaleddu ar draws pob un o'r chwe chyflenwr mawr a ledled Prydain Fawr, o 1 Ionawr 2008 i 1 Ionawr 2011.**

Mae'r llinell goch yn defnyddio hen lefel y defnydd canolig nodweddiadol o ynni (20,500 kWh)

Mae'r llinell las yn defnyddio lefel newydd y defnydd canolig nodweddiadol o ynni (16,500 kWh)



## Sut y bydd y ffigurau defnydd nodweddiadol diwygiedig o ynni yn effeithio ar gwsmeriaid?

Eu diben yw cynrychioli ffigurau defnydd nodweddiadol o ynni, felly ni fydd defnydd ynni eich cartref yn newid. Bydd eich biliau ynni yn seiliedig ar eich defnydd eich hun o ynni o hyd.

Ond bydd yn golygu ein bod yn newid y ffigur a roddir ar gyfer bil ynni 'nodweddiadol' neu 'ganolig'. Rydym yn defnyddio'r ffigur hwn mewn gwaith amrywiol, gan gynnwys ein taflen ffeithiau: Eglurhad o Filiau Ynni Cartref. Felly os ydych yn cymharu eich bil nwy yn rheolaidd â ffigur ein bil 'canolig', yna byddwch yn sylwi ar newid.

**Gwerthoedd bil blynyddol ar gyfer tariffau debyd uniongyrchol safonol, wedi'u cyfartaleddu ar draws pob un o'r chwe chyflenwr mawr, ledled Prydain Fawr. Mae holl werthoedd y biliau isod yn adlewyrchu prisiau nwy a thrydan ym mis Ionawr 2011.**

| | |
|---|---|
| **Bil nwy canolig newydd - yn seiliedig ar ddefnydd o 16,500 kWh o ynni'r flwyddyn**<br>**£608** | **Hen fil nwy canolig - yn seiliedig ar ddefnydd o 20,500 kWh o ynni'r flwyddyn**<br>**£729** |
| **Bil trydan canolig newydd - yn seiliedig ar ddefnydd o 3,300 kWh o ynni'r flwyddyn**<br>**£424** | **Hen fil trydan canolig - yn seiliedig ar ddefnyddo 3,300 kWh o ynni'r flwyddyn**<br>**£424** |

Nid yw pob safle cymharu ar-lein yn defnyddio ein ffigurau. Mae rhai yn defnyddio eu data eu hunain i gyfrifo biliau cyfartalog. Ond os ydych yn defnyddio safle cymharu ar-lein yn rheolaidd i gymharu prisiau, ac mae'r safle honno'n defnyddio ein ffigurau ni, yna efallai y byddwch yn gweld rhai newidiadau yn yr arbedion nodweddiadol y mae'n dweud y gallwch eu gwneud wrth newid.

Mae'n bwysig nodi mai diben y rhain yw cynrychioli ffigurau defnydd 'nodweddiadol' o ynni yn unig. Mewn gwirionedd, nid oes y fath beth â chwsmer nodweddiadol. Mae pob cartref yn wahanol.

## Defnyddiwch wybodaeth go iawn am eich defnydd o ynni eich hun i chwilio

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gwneud newidiadau mawr i'r farchnad ynni manwerthu. Rydym wedi rhoi pwysau ar gyflenwyr a chyflwyno rheolau newydd, gan gynnwys gwybodaeth well i ddefnyddwyr am eu defnydd gwirioneddol o ynni drwy filiau cliriach a chyfriflenni blynyddol.

Drwy hyn, nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio ffigurau defnydd nodweddiadol o ynni wrth chwilio am fargen well.

**Wrth newid, neu ddefnyddio safle cymharu ar-lein, gwnewch yn siŵr bod eich bil neu gyfriflen ynni diweddar wrth law. Mae'n rhoi gwybodaeth werthfawr am eich defnydd eich hun o ynni a'r math o drefniant sydd gennych ar hyn o bryd.**

**Bydd hyn yn eich helpu i wneud cymariaethau cywir ag unrhyw gynnig arall.**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** | 020 7901 7225 | e-bost chris.lock@ofgem.gov.uk |
| **Alison Wright, Swyddog y Wasg** | 020 7901 7217 | e-bost alison.wright@ofgem.gov.uk |